

Cadw Cymru'n Ddiogel.  
Dal ati i Ddysgu.



Keep Wales Safe.  
Keep Wales Learning.



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Canllawiau ar ddysgu mewn ysgolion a lleoliadau o dymor yr hydref

# Cynnwys

<b>Cyflwyniad</b>	<b>2</b>
<b>Sut beth fydd y dysgu?</b>	<b>4</b>
Blaenoriaethau ar gyfer dysgu	4
Iechyd a lles	5
Diben	6
Llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol	7
Profiadau dysgu eang a chytbwys	8
Cynnydd ac asesu	9
Partneriaeth gyda rhieni, gofalwyr a dysgwyr	10
Y gofynion deddfwriaethol	11
Casglu gwybodaeth ac adborth	11
<b>Datblygu cyfuniad o ddysgu yn yr ysgol a dysgu tu allan i'r ysgol</b>	<b>12</b>
<b>Ymateb i sefyllfaoedd gwahanol</b>	<b>13</b>
<b>Paratoi dull ar gyfer tymor yr hydref</b>	<b>14</b>
Canllawiau i gyfnodau penodol: y Cyfnod Sylfaen	14
Ysgolion uwchradd a chymwysterau	15
<b>Adnoddau</b>	<b>17</b>
Adnoddau cyfrwng Cymraeg	17
Pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig	17
STEM	17
<b>Atodiad</b>	<b>18</b>
Recriwtio, adfer a chodi safonau	18

## Cyflwyniad

Mae'r canllawiau hyn wedi cael eu datblygu i gyflwyno'r disgwyliadau a'r blaenoriaethau ar gyfer y dysgu mewn ysgolion a lleoliadau dros y flwyddyn ysgol nesaf.

Mae'r canllawiau hyn yn cyflwyno cyfres gyffredin o flaenoriaethau dysgu i ysgolion ac i'r partneriaid sy'n eu cefnogi, ni waeth beth yw lefel y gweithrediadau mewn ymateb i COVID-19. Bydd angen i ysgolion baratoi ar gyfer amrywiaeth o senarios ac mae'r canllawiau hyn yn nodi pa flaenoriaethau dysgu ddylai aros yn gyson – i un dull gweithredu sy'n ddigon hyblyg i ymateb i newidiadau mewn amgylchiadau.

Cyflwyno'r sesiynau 'ailgydio, dal i fynd a pharatoi' yn ystod tymor haf 2019/20 oedd cam cyntaf ein proses o fynd i'r afael â chanlyniadau'r cyfyngiadau a gyflwynwyd ym mis Mawrth oherwydd y pandemig COVID-19. Bydd y pandemig COVID-19 yn parhau i effeithio ar ddysgu ac addysgu yn ystod blwyddyn ysgol 2020/21. Bydd dulliau gweithredu ysgolion a lleoliadau'n parhau i esblygu er mwyn darparu dysgu mewn ysgolion ac mewn mannau eraill os bydd angen. Mae'n bosibl y bydd y cydbwysedd rhwng dysgu mewn ysgolion a lleoliadau a'r amser sy'n cael ei dreulio'n dysgu mewn mannau eraill yn newid ar adegau gwahanol er mwyn ymateb i'r pandemig. **Mae'r her hon yn golygu bod angen i ysgolion addasu sut maent yn cynllunio'r cwricwlwm er mwyn gallu bod yn hyblyg ac ymateb i newidiadau mewn amgylchiadau. Felly, mae'r canllawiau hyn yn rhoi cyfres lefel uchel o ddisgwyliadau ar gyfer ysgolion a lleoliadau i ddatblygu dulliau dysgu a cheisio cau'r bwch rhwng ein dysgwyr ar yr un pryd â chodi'r disgwyliadau i bawb.** Wrth i ysgolion a lleoliadau ddatblygu dulliau o ddarparu dysgu yn yr ysgol a'r tu allan, byddant yn gallu defnyddio'r canllawiau dysgu cyfunol (ewch i [hwb.llyw.cymru/dysgu-o-bell/datblygu-dulliau-i-geflogi-dysgu-o-bell/](http://hwb.llyw.cymru/dysgu-o-bell/datblygu-dulliau-i-geflogi-dysgu-o-bell/)).

Rydym yn gwybod y bu effaith ar y mwyafrif helaeth o ddysgu dros y misoedd diwethaf, ac mae disgwyl y bu'r effaith yn fwy ar grwpiau agored i niwed neu ar grwpiau difreintiedig. Mae effaith benodol hefyd ar y rheini a fydd yn ymgymryd â chymwysterau ffurfiol yn 2021; y rheini sy'n mynd i Flynyddoedd 11, 12 ac 13. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi £29m i recriwtio, i adfer ac i godi safonau, gan ddod ag athrawon i ysgolion i ddarparu cefnogaeth fanwl ag iddi ffocws ar gyfer y rheini sydd â heriau penodol er mwyn iddynt allu cyflawni eu potensial (mae crynodeb yn yr atodiad). Nid yw hyn yn wahanol i'r dulliau dysgu a nodir yn y ddogfen hon, ond bydd yn cael ei adeiladu ar yr un meysydd blaenoriaeth, cysyniadau craidd a dulliau gweithredu.

Fodd bynnag, rydym hefyd yn gwybod y bydd amrywiaeth eang o effeithiau ar ddysgwyr ac y byddant yn amrywio yn ôl anghenion unigolion; e.e. dysgwyr mewn ysgolion a lleoliadau cyfrwng Cymraeg pan na chaiff y Gymraeg ei siarad gartref. O'r herwydd, rydym yn nodi un dull gweithredu yma i hyrwyddo cynnydd dysgu ym mhob grŵp, gan ddisgwyl i hyn gael ei addasu a'i ddatblygu yn ôl anghenion a heriau pob ysgol a phob dysgwr.

Mae ystyried Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) ochr yn ochr â'n nodau lles wedi amlygu'r rhan hollbwysig sydd gan ein hysgolion a'n lleoliadau i'w chwarae i fynd i'r afael ag anghenion bob dysgwr. Nid oes modd

gadael neb ar ôl. Dyna pam ein bod wedi mabwysiadu dull gweithredu teg i bob dysgwr ddod i'r sesiynau 'ailgydio, dal i fyny, a pharatoi' o 29 Mehefin ymlaen (os oeddent yn gallu). Fodd bynnag ar gyfer rhai sydd ag anghenion dysgu a datblygu penodol, dim ond drwy ddarparu cefnogaeth ychwanegol wedi'i thargedu mae modd sicrhau cyfle cyfartal. Dyna pam ein bod yn dal i ganolbwyntio ar iechyd a lles dysgwyr fel rhagofyniad ar gyfer dysgu, ond mae hefyd yn golygu mwy o gynllunio manwl ar gyfer dysgu a chynnydd i'r tymor canolig a hwy.

Yn nes ymlaen yn ystod yr haf cyhoeddir canllawiau ategol ar gefnogi dysgwyr agored i niwed a difreintiedig. Er bod modd defnyddio'r canllawiau sydd yn y ddogfen hon gyda phob dysgwr, ac er y dylid gwneud hynny, mae hi'n anochel y bydd ystyriaethau gwahanol ac ychwanegol i ysgolion a lleoliadau wrth gynllunio ar gyfer dysgu a chynnydd y rheini sy'n wynebu rhwystrau yn eu dysgu. Bydd rhagor o ganllawiau'n ceisio cefnogi ysgolion a lleoliadau gyda hyn.

Bydd ysgolion a lleoliadau'n parhau i chwarae rhan hollbwysig drwy gefnogi cymunedau lleol, rhieni a gofalwyr yn ein hymgyrch i gadw'n ddiogel a dal ati i ddysgu. Mae ein cenhadaeth genedlaethol a'n system addysg ar bob lefel yn dal i ganolbwyntio ar gefnogi ein holl blant a phobl ifanc i wireddu eu potensial a llwyddo drwy'r cyfnod eithriadol hwn. Mae ymateb ymarferwyr i bandemig COVID-19 wedi bod yn rhagorol, ac yn dystiolaeth unwaith yn rhagor o gapasiti ein proffesiwn addysg i godi a mynd i'r afael â heriau sylweddol.

Bydd y canllawiau hyn yn cefnogi ysgolion ac athrawon i fynd i'r afael ag anghenion pob dysgwr.

## Sut beth fydd y dysgu?

Bydd angen i ddull dysgu ysgol neu leoliad addasu i'r newidiadau mewn amgylchiadau y gallem eu hwynebu mewn ymateb i COVID-19. Dylai ysgolion felly ddatblygu dull o ddysgu sy'n ddigon hyblyg i addasu i sefyllfaoedd gwahanol yn ogystal â lefelau gwahanol o ddysgu yn yr ysgol a dysgu yn y cartref neu mewn man arall.

Yng nghyd-destun yr ansicrwydd hwn, mae angen cyfres eang o egwyddorion y gellir ac y dylid eu gweithredu ni waeth beth yw'r senario. Ein nod yw darparu eglurder, ffocws a chyfeiriad ar gyfer dysgu yng nghyd-destun yr ysgol/lleoliad ac yng nghyd-destun y cartref neu mewn man arall, gyda'r hyblygrwydd i ysgolion addasu i amrywiaeth o senarios; mae hyn yn sicrhau bod dysgwyr yn cael profiadau cydlynol, cyson a chydgyssylltiedig o ddysgu, yn hytrach na gofynion sy'n gwrthdaro, ailadrodd diangen neu ddiffyg cysylltiad rhwng y ddau gyd-destun. Bydd ystyriaethau ychwanegol ar gyfer dysgwyr penodol, gan gynnwys ein dysgwyr ieuengaf a dysgwyr sy'n wynebu rhwystrau i ddysgu. Yn achos dysgwyr sy'n paratoi ar gyfer cymwysterau, bydd angen cael cymorth ychwanegol a gellir gweld manylion am hyn isod hefyd.

## Blaenoriaethau ar gyfer dysgu

Yn gryno, wrth ystyried eu dull o ddysgu dros dymor yr hydref, dylai ysgolion a lleoliadau ystyried:

- **iechyd a lles:** dylai'r dysgu gefnogi lles meddyliol, emosiynol, corfforol a chymdeithasol y dysgwyr ar yr un pryd â chydabod pwysigrwydd chwarae a dysgu yn yr awyr agored
- **diben:** dylai fod diben clir i'r holl ddysgu, gan ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i ddysgwyr nawr ac yn y tymor hwy
- **llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol:** dylai dysgwyr gael cyfleoedd i ddatblygu ac i ddefnyddio'r sgiliau hyn ar draws y cwricwlwm
- **profiadau dysgu eang a chytbwys:** dylai dysgwyr gael profiadau dysgu sy'n ymestyn dros gwricwlwm eang ac sy'n cynnwys cyfleoedd i ddatblygu dealltwriaeth eang ac amrywiaeth o wybodaeth a sgiliau
- **cynnydd ac asesu:** dylai dysgwyr symud ymlaen yn ystyrlon drwy gydol y cyfnod hwn. Dylid dylunio'r dysgu i gefnogi ymestyn dyfnder a soffistigeiddrwydd y dysgu dros amser. Rydym yn hybu defnyddio asesiadau i helpu dysgwyr i symud ymlaen i'r camau nesaf yn eu dysgu
- **partneriaeth gyda rhieni, gofalwyr a dysgwyr:** dylai ysgolion ddatblygu dealltwriaeth ac iaith gyffredin gyda rhieni, gofalwyr a dysgwyr; gall hyn helpu i osod sylfaen ar gyfer y dysgu a chefnogi'r profiadau dysgu.

## **Iechyd a lles**

Yn gryno:

- dylai dysgu gefnogi lles meddyliol, emosiynol, corfforol a chymdeithasol dysgwyr
- dylai dysgu gydnabod pwysigrwydd dysgu yn yr awyr agored
- mae lles yn gwbl hanfodol i alluogi dysgu – os na fydd dysgwyr yn teimlo'n gyfforddus, yn saff ac yn ddiogel, ni fyddant yn dysgu'n effeithiol.

Wrth i ddysgwyr dreulio rhagor o amser yn eu hysgol neu leoliad, bydd lles y dysgwyr a'r staff yn parhau i fod yn allweddol. Mae'r pandemig parhaus yn golygu y bydd dysgwyr o bosibl yn parhau i dreulio cyfnodau gwahanol yn dysgu o bell.

Os na fydd dysgwyr yn teimlo'n gyfforddus, yn saff ac yn ddiogel, ni fyddant yn dysgu'n effeithiol. Dylai ymarferwyr barhau i ganolbwyntio ar gefnogi lles fel sylfaen ar gyfer y dysgu.

Bydd angen i ymarferwyr roi sylw penodol i ddysgwyr nad ydynt yn gallu dod i ysgol neu leoliad unrhyw bryd a sut mae modd eu cefnogi o bell.

### **Lles meddyliol ac emosiynol**

I nifer o ddysgwyr, bydd cymryd rhan mewn profiadau dysgu ystyrlon yn cefnogi eu lles meddyliol; bydd hyn yn eu helpu i deimlo synnwyr o ddiben, cynnydd a'u bod yn mwynhau'r dysgu.

Mae'r ysgol yn gallu cynnig amrywiaeth o fanteision iechyd meddwl i ddysgwyr. Bydd yn cynnig amser gyda ffrindiau, synnwyr o drefn a chyfle i dreulio amser gydag oedolion yn yr ysgol sy'n bwysig iddynt.

Mae cyfathrebu a sgwrsio yn gallu cynnig cymorth pwysig. Bydd sgwrsiau ynghylch sut mae dysgwyr yn teimlo yn parhau i fod yn hollbwysig. Dylai'r staff annog y dysgwyr i drafod eu cwestiynau a'u pryderon.

Dylai'r holl ddysgwyr gael mynediad at amrywiaeth o offer a chymorth ar gyfer eu lles meddyliol ac emosiynol yn yr ysgol. Yn yr un modd â chyn y pandemig, bydd cefnogaeth arbenigol bwrpasol ar gael i'r dysgwyr penodol hynny y mae angen y gefnogaeth honno arnynt, a bydd cefnogaeth gyffredinol ar gael i gefnogi dysgwyr yn fwy cyffredinol i ddeall eu lles eu hunain a meithrin gwytnwch yn ogystal â mecanweithiau ymdopi i reoli heriau COVID-19. Dylai ysgolion ystyried sut y gellid defnyddio dulliau gweithredu gwaith ieuencid neu gymorth bugeiliol cyffredinol.

### **Cydberthnasau a lles cymdeithasol**

Mae'n bosibl y bydd dysgwyr yn croesawu'r cyfle yn yr ysgol i gwrdd â ffrindiau, ailgydio mewn cysylltiadau cymdeithasol a threulio amser gydag oedolion yn yr ysgol sy'n bwysig iddynt. Bydd angen cefnogaeth ychwanegol ar rai dysgwyr i ailgysylltu. Mae lleoliadau addysg yn llefydd cymdeithasol ac felly'n chwarae rhan hollbwysig wrth i'w dysgwyr ddatblygu synnwyr o ymberthyn ac ymgysylltiad. Mae hyn yn digwydd drwy lawer o ryngweithio drwy gydol y dydd mewn ysgol neu mewn lleoliad ac nid dim ond yn yr ystafell ddosbarth.

Bydd angen amser, cefnogaeth a dealltwriaeth ar ddysgwyr er mwyn datblygu arferion newydd a bydd cyfleoedd priodol i chwarae, i gymdeithasu ac i feithrin cydberthnasau yn gallu cefnogi hyn. Dylai ymarferwyr sicrhau bod dysgwyr yn cael amser, lle a gweithgareddau strwythuredig er mwyn ailffurfio cydberthnasau gyda dysgwyr eraill a gyda staff.

### **Lles corfforol**

Mae ysgolion yn gallu darparu cyfleoedd pwysig i gefnogi iechyd a lles corfforol dysgwyr. Mae hyn yn rhoi'r cyfle i bobl ifanc fwynhau amrywiaeth o weithgareddau corfforol. Mae hefyd yn gallu eu helpu i ddeall pwysigrwydd deiet cytbwys, iach a'u helpu i gael gafael ar fwyd a'i fwynhau fel rhan o hyn. Efallai fod y pandemig wedi effeithio ar fynediad dysgwyr at y rhain. Efallai fod eu harferion cysgu wedi newid hefyd. A dweud y gwir, bydd angen ail-sefydlu trefniadau arferol nifer o ddysgwyr a gall hyn fod yn arbennig o anodd oherwydd bydd natur y ddarpariaeth yn esblygu mewn ymateb i'r pandemig. Dylai ysgolion a lleoliadau ystyried sut gall dysgwyr fwynhau gweithgareddau i gefnogi eu hiechyd corfforol a deall a datblygu arferion iach. Dylid rhoi pwyslais penodol ar fwynhad gan fod hyn yn eu cefnogi i ddatblygu arferion iechyd cadarnhaol.

### **Chwarae i'r holl ddysgwyr**

Dylai ymarferwyr gydnabod rôl bwysig chwarae i ddysgwyr o bob oed. Mae hyn yn hollbwysig i'w datblygiad, eu lles a'u cymdeithasoli.

Dylai'r holl ddysgwyr gael cyfleoedd i chwarae a chymdeithasu drwy weithgareddau wedi'u strwythuro a chwarae heb ei strwythuro. Dylid lleihau'r risgiau drwy gadw dysgwyr mewn grwpiau cyswllt a pharhau i hwyluso gweithgareddau chwarae yn yr awyr agored cymaint ag y bo modd. Efallai bydd angen gwasgaru amseroedd egwyl i gyflawni hyn.

### **Dysgu yn yr awyr agored**

Dylai ysgolion sicrhau bod dysgwyr yn treulio cymaint o amser â phosibl yn yr awyr agored. Mae manteision corfforol, meddyliol ac addysgol pwysig i hyn ac mae hefyd yn helpu i frwydro yn erbyn trosglwyddo COVID-19.

Mae sefydliadau ar gael sy'n gallu cefnogi ysgolion a lleoliadau wrth ystyried dysgu yn yr awyr agored ac mae ystod eang o adnoddau ar gael. Mae cymorth ar gael i ysgolion ac i leoliadau drwy Hwb, yn ogystal â drwy Gyngor Cymru ar gyfer Dysgu yn yr Awyr Agored yn [www.walescouncilforoutdoorlearning.org/hafan/](http://www.walescouncilforoutdoorlearning.org/hafan/), gan gynnwys eu canllawiau *Dysgu Awyr Agored o Ansawdd Rhagorol* (Y Panel Ymgynghorwyr Addysg Awyr Agored, 2018).

### **Diben**

Yn gryno:

- dylai fod diben clir i'r holl ddysgu, gan ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i ddysgwyr nawr ac yn y tymor hwy
- wrth i ysgolion ac ymarferwyr ddatblygu eu blaenoriaethau a'u ffocws ar gyfer dysgu, dylent wedyn geisio sicrhau bod y dysgu yn ymgynghorwyr tuag at y rhain

- dylai'r dysgu gydnabod sefyllfa pob dysgwr yn dilyn y tarfu a datblygu camau dysgu clir er mwyn ymateb i hynny.

Mae addasu'r dysgu'n golygu bod angen i ysgolion ac ymarferwyr ddeall eu blaenoriaethau ar gyfer y dysgu ac anghenion eu dysgwyr. Wrth feddwl am y blaenoriaethau a'r ffocws ar gyfer y dysgu, efallai y bydd ysgolion a lleoliadau eisiau ystyried pedwar diben y Cwricwlwm i Gymru fel ffordd o gyfleu ein dyheadau ar gyfer pob dysgwr yng Nghymru.

Wrth i ysgolion ac ymarferwyr ddatblygu eu blaenoriaethau a'u ffocws ar gyfer y dysgu, dylent wedyn geisio sicrhau bod y dysgu yn ymgyrhaedd tuag at y rhain. Fel rhan o hynny dylid ystyried y blaenoriaethau allweddol ar gyfer y dysgu a amlinellir yn y canllawiau hyn, ond efallai bydd ysgolion a lleoliadau hefyd yn dymuno ystyried:

- ein gweledigaeth – pa wybodaeth, sgiliau ac ymagweddau rydym am i ddysgwyr eu datblygu?
- pa heriau sy'n wynebu dysgwyr a sut gallwn eu helpu i'w goresgyn?
- sut gallwn ni sicrhau bod dysgwyr yn dod yn eu blaenau? Ydy ein disgwyliadau'n ddigon uchel?

## **Llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol**

Yn gryno:

- dylai dysgwyr gael cyfleoedd i ddatblygu ac i ddefnyddio'r sgiliau hyn ar draws y cwricwlwm
- mae'r sgiliau hyn yn hanfodol – maent yn datgloi dysgu ac yn caffael gwybodaeth
- dylai'r cyfleoedd fod yn rhai go iawn – mae'n bwysig bod y sgiliau hyn yn cael eu gwreiddio mewn dysgu ehangach arall, yn hytrach na cheisio eu gosod ar wahân i ddysgu ehangach.

Dylai'r dysgu dros dymor yr hydref barhau i gyfrannu at godi safonau mewn llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol. Y sgiliau hyn yw'r sylfaen ar gyfer pob dysgu ac maent yn hanfodol er mwyn i ddysgwyr allu datgloi gwybodaeth.

Bydd cymhwysedd digidol, datrys problemau a chreadigrwydd yn helpu dysgwyr i ddysgu drwy ddulliau digidol, gan allu delio â senarios gweithredol gwahanol yn hyblyg.

Bydd datblygu a defnyddio'r wybodaeth a'r sgiliau hyn yn hollbwysig yn ystod y cyfnod hwn. Pan nad oedd dysgwyr yn yr ysgol efallai eu bod wedi colli cyfleoedd i ddatblygu'r sgiliau hyn a all effeithio ar eu parodrwydd i ddysgu. Bydd cefnogi cymhwysedd digidol dysgwyr yn bwysig i hwyluso mynediad at ddysgu y tu allan i'r ysgol.

Dylai dull o ddysgu wedi'i addasu mewn ysgolion ddarparu cyfleoedd go iawn i ddatblygu a defnyddio sgiliau llythrennedd a rhifedd a sgiliau digidol. Bydd hyn wedi'i wreiddio yn yr holl ddysgu ar draws cwricwlwm eang a chytbwys. Gall ymarferwyr ddefnyddio amrywiaeth eang o bynciau, gweithgareddau ac adnoddau i ddatblygu



gwybodaeth a sgiliau. Mae'n bwysig bod y sgiliau hyn yn cael eu gwreiddio mewn dysgu ehangach arall, yn hytrach nag eu gosod ar wahân.

Mae'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol yn cyflwyno un dull cyffredin gan gefnogi ysgolion ac ymarferwyr i sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfleoedd rheolaidd i ddatblygu, ymestyn a defnyddio'r sgiliau trawsgwricwlaidd hyn.

Dylai hyn gynnwys cyfleoedd i wneud y canlynol yn ystod yr amser dysgu i:

- ddatblygu sgiliau gwranddo, darllen, siarad ac ysgrifennu
- defnyddio sgiliau rhifedd a datrys problemau mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn
- defnyddio ystod o dechnolegau i weithredu, cyfathrebu a gwneud synnwyr o'r byd.

## **Profiadau dysgu eang a chytbwys**

Yn gryno:

- dylai dysgwyr gael profiadau dysgu sy'n ymestyn dros gwricwlwm eang ac sy'n cynnwys cyfleoedd i ddatblygu dealltwriaeth eang ac amrywiaeth o wybodaeth a sgiliau sydd wedyn yn arwain at ragor o ddyfnder
- mae'n hollbwysig bod y dysgu yn tynnu ar ystod o ddisgyblaethau ac na cholli rhai disgyblaethau.

Er mwyn ennyn diddordeb dysgwyr yn llawn, a'u helpu i ddatblygu ac ehangu'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt, mae angen i ddysgwyr feithrin gwybodaeth a chael profiadau eang a dwfn. Drwy gydol y tarfu a achoswyd gan COVID-19, mae hi'n hanfodol na chaiff hyn ei golli.

Mae'n bwysig bod y dysgu yn parhau i ddarparu ehangder, gan ddefnyddio pynciau, parthau, disgyblaethau a thestunau gwahanol. Ni ddylid colli meysydd fel y celfyddydau creadigol; mae'n gallu cynnig cyfleoedd i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth fel creadigrwydd ac arloesi, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, effeithiolrwydd personol, cynllunio a threfnu. Efallai y bydd ysgolion a lleoliadau hefyd am ddefnyddio canllawiau Cwricwlwm i Gymru ar themâu trawsbynciol a sgiliau sy'n rhan annatod o'r pedwar diben. Wrth i ddysgwyr ddatblygu ac arbenigo, mae hi'n bwysig bod ysgolion yn parhau i ddarparu cyfres eang a chytbwys o ddewisiadau sy'n cefnogi llwybrau dysgu unigolion. Dylai ysgolion fod mor uchelgeisiol â phosibl wrth gynnig dewisiadau.

Dylai ysgolion a lleoliadau hefyd barhau i gefnogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau cyfathrebu effeithiol yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae hyn yn hollbwysig er mwyn paratoi dysgwyr i fod yn rhan o Gymru ddwyieithog.

## Cynnydd ac asesu

Yn gryno, dylai dysgwyr symud ymlaen yn ystyrllon drwy gydol y cyfnod hwn. Dylid dylunio'r dysgu i gefnogi ymestyn dyfnder a soffistigeiddrwydd y dysgu dros amser. Dylid canolbwyntio'r asesu er mwyn helpu'r dysgwyr i symud ymlaen i'r camau nesaf yn eu dysgu.

### Cynnydd

Er gwaethaf y tarfu a fu oherwydd COVID-19, rydym yn disgwyl y dylai'r holl ddysgwyr barhau i wneud cynnydd ystyrllon. Mae hyn yn hollbwysig i addysg tymor hir dysgwyr a'u lles gydol oes. Wrth i ddysgwyr ddod yn eu blaenau, maent yn datblygu dealltwriaeth sy'n fwy soffistigedig o gysyniadau a dylai defnyddio gwybodaeth, sgiliau a dysgu eu cefnogi i wneud hyn. Mae'n bwysig gweld cynnydd yn y cyd-destun hwn: dyfnhau dealltwriaeth a defnyddio gwybodaeth a sgiliau, yn hytrach na dim ond rhoi sylw i ragor o bynciau neu gynnwys gwahanol.

Mae'r rhaglenni astudio cyfredol yn cefnogi ymarferwyr i bennu beth ddylai fod yn gamau nesaf i'w dysgwyr. Efallai byddant hefyd eisiau defnyddio'r egwyddorion cynnydd a'r disgrifiadau o ddysgu sydd yng nghanllawiau'r Cwricwlwm i Gymru i gefnogi hyn.

Bydd dysgwyr yn dod yn eu blaenau ar adegau gwahanol a dylid herio a chefnogi pob unigolyn yn briodol i symud ei ddysgu ymlaen, gan ystyried unrhyw rwystrau rhag dysgu sydd angen sylw.

### Asesu

Diben asesu yw cefnogi pob dysgwr unigol i ddod yn ei flaen ar gyflymder priodol, gan sicrhau bod y dysgwr yn cael ei herio a'i gefnogi'n briodol. Wrth i ddysgwyr barhau i ddysgu mewn lleoliadau gwahanol, ni ddylai'r asesu ganolbwyntio ar 'brofi' mewn ymdrech i 'ddal i fyny' a rhoi sylw i bopeth a fyddai wedi cael sylw cyn COVID-19. Dylai helpu i ddatblygu darlun cyfannol o'r dysgwr – ei gryfderau, sut mae'n dysgu a'r meysydd i'w datblygu – er mwyn ei alluogi i baratoi i ddysgu a chytuno ar y camau nesaf. Mae asesu'n rhan annatod o'r broses ddysgu, gydag ymarferwyr yn gweithio gyda dysgwyr i helpu i adnabod eu cryfderau, y meysydd i'w datblygu a'r camau nesaf yn y dysgu.

Lles y dysgwr yw'r brif flaenoriaeth i ysgolion a lleoliadau wrth i ddysgwyr ddysgu yn yr ysgol/lleoliad ac mewn mannau eraill. Mae lles dysgwyr yn chwarae rhan allweddol drwy helpu dysgwyr i fynd â'u dysgu rhagddo yn ogystal â'u paratoi i ddysgu.

Dylai dysgu ar draws ehangder y cwricwlwm ddefnyddio ystod eang o ddulliau asesu, gan greu darlun cyfannol o ddatblygiad y dysgwr. Bydd ymarferwyr gyda phlant iau yn parhau i ddefnyddio arsylwadau i asesu'r cynnydd mewn dysgu drwy weithgareddau sy'n seiliedig ar chwarae. Mae hi'n bwysig bod yr arsylwadau'n canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau sydd efallai wedi datblygu mewn ffordd gadarnhaol ac annisgwyl yn ystod y cyfnod hwn ac nid oes angen canolbwyntio ar y 'dysgu a gollwyd'.

Drwy weithio gyda grwpiau o ddysgwyr yn yr ysgol neu'r lleoliad, bydd ymarferwyr yn treulio amser gydag unigolion ac yn datblygu eu dealltwriaeth o'r ffordd maent yn dysgu. Bydd hyn golygu eu bod yn gallu cefnogi eu cynnydd wrth iddynt barhau i ddysgu yn yr ysgol neu'r lleoliad, yn ogystal â gartref neu mewn mannau eraill. Wrth gynllunio eu dull dysgu, bydd ymarferwyr hefyd yn addasu ac yn datblygu i sicrhau bod yr asesu yn rhan hanfodol o gefnogi dysgwyr pan na fyddant yn bresennol yn yr ysgol neu'r lleoliad.

Mae asesiadau personol ar-lein ar gael drwy gydol y flwyddyn ysgol i ysgolion gael ffyrdd hyblyg o gasglu gwybodaeth am sgiliau darllen a rhifedd eu dysgwyr. Maent wedi cael eu dylunio i gefnogi cynnydd ac i ymgysylltu dysgwyr er mwyn iddynt ddeall lle maent arni ar eu taith ddysgu. O'r herwydd, caiff ymarferwyr eu hannog i ddefnyddio'r asesiadau hyn, ar adeg maen nhw'n meddwl sy'n briodol, i gefnogi cynnydd dysgwyr unigol gan eu helpu i ddod o hyd i'r camau nesaf yn eu dysgu.

Rhoddir adborth ar eu sgiliau darllen a rhifedd i'r dysgwyr drwy eu cyfrifon Hwb. Mae'r adborth hwn yn gallu helpu cynnydd unigolion yn y sgiliau trawsgwricwlaidd hyn, ac mae'n helpu dysgwyr i ddeall eu cryfderau a'r camau nesaf posibl.

## **Partneriaeth gyda rhieni, gofalwyr a dysgwyr**

Yn gryno, dylai ysgolion ddatblygu dealltwriaeth gyffredin ac iaith gryno glir gyda rhieni/gofalwyr a dysgwyr. Gall hyn helpu i fod yn sylfaen i'r dysgu a chefnogi'r profiadau dysgu.

### **Dysgwyr**

Mae ymgysylltiad gweithredol rheolaidd rhwng y dysgwr a'r ymarferydd wrth galon y broses ddysgu ac mae'n arbennig o bwysig wrth i ddysgwyr barhau i ddysgu mewn mannau gwahanol a chymryd mwy o berchnogaeth dros eu dysgu o ganlyniad i hynny.

Dylid cefnogi dysgwyr i ysgwyddo'r cyfrifoldeb am eu dysgu, gan gymryd rhan mewn deialog a chyfathrebu ag ymarferwyr ynghylch yr hyn maen nhw'n ei ddysgu, sut maen nhw'n dysgu a'u cynnydd gyda'r dysgu. Bydd angen lefelau gwahanol o gefnogaeth ar ddysgwyr er mwyn cyfrannu at y broses ddysgu gan ddibynnu ar eu cyd-destun nhw. Fodd bynnag, mae dysgu y tu allan i'r ysgol neu'r lleoliad yn rhoi'r cyfle i ddysgwyr ddatblygu gwybodaeth a sgiliau i ysgwyddo perchnogaeth o'u dysgu.

### **Rhieni a gofalwyr**

Mae hi'n hanfodol bod rhieni a gofalwyr yn cymryd rhan yn y dysgu er mwyn datblygu profiadau dysgu sy'n cynnwys dysgu yn yr ysgol ac y tu allan iddi. Dylai rhieni a gofalwyr sy'n ymgysylltu â dysgwyr o bob oed helpu i gyfnerthu'r dysgu a wneir yn yr ysgol. Bydd yn rhaid i ysgolion ddatblygu dealltwriaeth i rhieni, gofalwyr a dysgwyr er mwyn deall eu rôl yn y broses hon. Dylai'r cyfathrebu bob amser fod yn glir, yn gryno ac yn effeithiol.

Dylai ysgolion ac ymarferwyr ystyried:

- sut bydd yr ysgolion neu'r lleoliadau yn cefnogi rhieni a gofalwyr i ddeall ac i ymgysylltu â dysgu eu plentyn gartref
- rhoi gwybod i deuluoedd pa mor bwysig yw bod dysgwyr yn rhannu eu profiadau dysgu yn ystod y cyfnod hwn
- tawelu meddyliau plant a rhieni a gofalwyr. Bydd nifer o deuluoedd yn poeni am roi plant mewn risg ac mae gan ysgolion ran i'w chwarae drwy dawelu eu meddwl. Dylai'r cyfathrebu fod yn ffeithiol, yn glir ac yn seiliedig ar y dystiolaeth a'r canllawiau diweddaraf
- sut dylid cyflwyno adborth ar ddysgu, gan ganolbwyntio ar gefnogi'r dysgwr i symud ymlaen drwy ei gysuro, cydnabod yr ymdrech a'r hyn sydd wedi cael ei gyflawni, a chytuno ar y camau nesaf.

## Y gofynion deddfwriaethol

- Ar 24 Mehefin fel rhan o Ddeddf y Coronafeirws 2020, cafodd gofynion cwricwlwm sylfaenol Cymru yn ogystal â'r trefniadau asesu cysylltiedig ar gyfer ysgolion a lleoliadau meithrin nas cynhelir eu hatal. Bwriad hyn oedd rhoi'r amser a'r hyblygrwydd i ysgolion a lleoliadau ymateb i bandemig COVID-19.
- Fel sy'n cael ei orchymyn dan bwerau Deddf y Coronafeirws 2020, mae'r hysbysiad yn berthnasol yn y lle cyntaf am gyfnod o fis rhwng 23 Mehefin a 22 Gorffennaf. Bydd hyn yn cael ei adolygu yng ngoleuni cyngor iechyd y cyhoedd. Rydym hefyd yn gwybod bod angen i ysgolion a lleoliadau addasu eu dull o ddysgu yn ystod tymor yr hydref wrth iddynt ddelio ag amrywiaeth o heriau a byddwn yn ystyried hyn ym mhob penderfyniad. Bydd Llywodraeth Cymru yn egluro'r disgwyliadau o ran deddfwriaeth maes o law a byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar anghenion a buddiannau dysgwyr mewn cyfnod unigryw.
- Nid yw hyn yn golygu na chaiff ysgolion ddefnyddio'r rhaglenni astudio neu'r trefniadau asesu, megis yr asesiadau personol, pan fydd hynny'n briodol yn eu cyd-destun lleol ac yn briodol i anghenion eu dysgwyr. Yn benodol, mae modd parhau i ddefnyddio egwyddorion ac addysgeg Fframwaith y Cyfnod Sylfaen er mwyn cefnogi'r dysgu a rhoi sylfaen ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Mae ysgolion a lleoliadau hefyd yn gallu defnyddio canllawiau'r Cwricwlwm i Gymru yn [hwb.llyw.cymru/cwricwlwm-i-gymru](http://hwb.llyw.cymru/cwricwlwm-i-gymru) er mwyn cefnogi eu gwaith ar hyn o bryd.

## Casglu gwybodaeth ac adborth

Blaenoriaeth ganolog ar gyfer y flwyddyn nesaf yw deall sut bydd dull mwy hyblyg yn yr ysgol o ran dysgu ac asesu o fudd i ddysgwyr. Bydd hyn wrth galon ein dadansoddiad o elfennau gwahanol cynnydd dysgu yn ystod pandemig Covid-19, a'r hyn sy'n gweithio wrth baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Bydd ein proses werthuso'n golygu casglu gwybodaeth ac yn cynnig cyfle i roi adborth ynghylch sut mae ysgolion yn datblygu'r dysgu; bydd hyn yn cyfrannu at ragor o waith. Rydym yn bwriadu i hon fod yn broses barhaus ac ni fydd yn gysylltiedig ag atebolrwydd.

## Datblygu cyfuniad o ddysgu yn yr ysgol a dysgu tu allan i'r ysgol

Beth bynnag fo lefel y gweithrediadau, bydd angen i ysgolion a lleoliadau feddwl yn ofalus sut dylid defnyddio'r amser sy'n cael ei dreulio yn yr ysgol neu'r lleoliad. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd yr amser cyswllt yn werthfawr ac yn bwysig. Dylai ymarferwyr feddwl am y cydbwysedd a'r berthynas rhwng yr amser dysgu yn yr ysgol a'r dysgu mewn mannau eraill, gan ddefnyddio'r amser cyswllt yn ofalus ac yn effeithiol a meddwl sut gall yr amser gartref neu mewn man arall gefnogi'r broses o lunio cysylltiadau a chyfnerthu'r dysgu. Dylent ystyried amrywiaeth eang o dulliau addysgegol sy'n defnyddio dysgu yn yr ysgol a'r tu allan i'r ysgol mewn ffordd effeithiol i rymuso dysgwyr. Gall amser dysgu gartref gynnwys ymarfer sgiliau a dyfnhau'r wybodaeth sydd wedi cael ei chyflwyno yn ystod yr amser cyswllt ond gallai hefyd gynnwys meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth newydd. Gall eu cyfnod gartref hefyd ganiatáu i'r dysgwyr hŷn ymchwilio, paratoi a meddwl cyn archwilio a chyfnerthu cysyniadau, gwybodaeth a sgiliau yn ystod yr amser cyswllt. Dylent geisio cefnogi'r sgiliau hyn yn yr ysgol a'r tu allan i'r ysgol. Dylai ymarferwyr bob amser geisio datblygu sgiliau digidol yng nghyd-destun dysgu ehangach yn hytrach na cheisio eu haddysgu ar eu pen eu hunain.

Wrth ddatblygu'r profiadau dysgu hyn, dylai ysgolion a lleoliadau ystyried canllawiau ar ddysgu cyfunol (ewch i [hwb.llyw.cymru/dysgu-o-bell/datblygu-dulliau-i-gefnogi-dysgu-o-bell/](http://hwb.llyw.cymru/dysgu-o-bell/datblygu-dulliau-i-gefnogi-dysgu-o-bell/)).

## Ymateb i sefyllfaoedd gwahanol

Mae cryn ansicrwydd yn wynebu'r system addysg wrth i ni baratoi ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf.

Mae hawl y CCUHP i addysg yn berthnasol yn ddieithriad, ni waeth beth yw'r senario neu'r rhwystrau rhag dysgu sy'n wynebu unigolion. Ni fydd rhagor o gyfyngiadau symud, na chyfnod arall o ddysgu cyfunol yn rhyddhau awdurdodau lleol o'u dyletswydd i ddarparu addysg addas. Fodd bynnag, cydnabyddir efallai y bydd angen gweithredu'r ddyletswydd yn wahanol i rai dysgwyr am gyfnodau.

Os dychwelir at gyfyngiadau symud yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf, neu os bydd angen rhyw fath o ddysgu cyfunol, bydd yr eithriadau canlynol yn berthnasol o ran cyswllt a hyd y dysgu.

- Dylid cysylltu'n rheolaidd â'r holl ddysgwyr i 'ailgydio' – byddai hyn yn gyfle i holi ynghylch diogelwch a lles y dysgwr yn ogystal â thrafod eu profiad dysgu ac ystyried cefnogaeth ychwanegol bosibl.
- Dylai'r holl ddysgwyr gael yr un cyfnod dysgu ag y byddent yn ei gael petaent yn yr ysgol neu'r lleoliad, hyd yn oed os yw rhywfaint o'r dysgu'n cael ei wneud gartref neu mewn man arall. Bydd eithriadau i weithredu'r disgwyliad hwn; fodd bynnag dyma fydd y man cychwyn i bob dysgwr.

## Paratoi dull ar gyfer tymor yr hydref

Yn gryno:

- gall ysgolion ddefnyddio dulliau'r Cwricwlwm i Gymru i helpu i addasu a dod yn fwy hyblyg i newidiadau mewn amgylchiadau yn ystod COVID-19, ond mae hyn yn wahanol i waith paratoi ehangach ysgolion ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Byddwn yn cyhoeddi'r disgwyliadau i baratoi ar gyfer diwygio yn gynnar yn ystod tymor yr hydref
- wrth baratoi dull ar gyfer tymor yr hydref, dros amser dylai'r dysgu geisio cyd-fynd yn well ag egwyddorion ag ethos y Cwricwlwm i Gymru.

Wrth i ysgolion ddechrau meddwl am ddysgu ac addysgu ar gyfer y tymor a'r flwyddyn ysgol nesaf, bydd canllawiau'r Cwricwlwm i Gymru (ewch i [hwb.llyw.cymru/cwricwlwm-i-gymru](http://hwb.llyw.cymru/cwricwlwm-i-gymru)) yn cynnig cefnogaeth ddefnyddiol. Mae'r tarfu diweddar wedi amlygu nawr yn fwy nag erioed y dylai addysg dysgwyr fod yn seiliedig ar y pedwar diben. Bydd ymarferwyr yn datblygu ac yn newid eu dulliau mewn ymateb i'r sefyllfa sy'n newid. Mae'r pedwar diben yn rhoi ffocws canolog ar gyfer y dysgu a'r addysgu byddant yn ei ddatblygu. Mae canllawiau Cwricwlwm i Gymru yn cynnwys nifer o'r atebion i hyblygrwydd, ymreolaeth a heriau'r dyfodol am gryn amser eto; mae'r cwricwlwm wedi cael ei ddatblygu gydag ymarferwyr dros y blynyddoedd diwethaf ac mae mwy o hyblygrwydd yn un o'i brif egwyddorion. Ni ddylid gweld y cwricwlwm newydd fel baich ychwanegol, ond dylid ei weld fel ateb pwysig i nifer o'r heriau rydym yn eu hwynebu ar hyn o bryd.

Fel ystyriaeth dymor hir, bydd angen i ysgolion a lleoliadau wrth gwrs ystyried sut byddant yn paratoi ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd. Rydym yn gweithio'n agos gyda chonsortia rhanbarthol ac Estyn i ailddatblygu disgwyliadau a dulliau a awgrymwyd ar gyfer ysgolion i baratoi ar gyfer hyn a byddwn yn cyhoeddi'r rhain ar ddechrau tymor yr hydref i helpu ysgolion i baratoi dros y ddwy flynedd nesaf.

## Canllawiau i gyfnodau penodol: y Cyfnod Sylfaen

Mae dychwelyd at weithrediadau'n arbennig o arwyddocaol i ddysgwyr y blynyddoedd cynnar sydd ar gam hollbwysig yn eu datblygiad gwybyddol (sy'n cefnogi eu dull o ddysgu). Dylai ysgolion a lleoliadau nas cynhelir sicrhau bod y datblygiad hwn yn cael ei gefnogi'n llawn, ac ystyried y goblygiadau i'w dysgu yn nes ymlaen. Mae ethos, dull gweithredu ac addysgeg y Cyfnod Sylfaen yn dal yn hollbwysig, ac mae modd eu defnyddio gyda'r holl ddysgwyr yn y blynyddoedd cynnar ac yng Nghyfnod Allweddol 2.

Gall ymarferwyr ystyried cyfuniad o ddulliau sy'n cynnwys datrys problemau, meddwl yn greadigol ac yn feirniadol; yn ogystal â hynny mae modd addasu'r ddarpariaeth i sicrhau bod y plant yn gallu cael gafael ar ystod o brofiadau dysgu. Mae gweledigaeth glir ar gyfer dysgu ac arwyddocâd yr amgylchedd dysgu yn hollbwysig er mwyn cael profiadau sy'n caniatáu i blant iau ddefnyddio, ymestyn a chyfnerthu eu sgiliau. Dylid ystyried sut y gall rhieni a gofalfwyr cael eu cefnogi i ymgysylltu yn nysgu eu plentyn gartref, er mwyn helpu sicrhau mynediad at brofiadau dysgu cyfoethog mewn amgylchedd o ddysgu cyfunol.

## **Ysgolion uwchradd a chymwysterau**

### **Ysgolion uwchradd**

Mae hi'n bwysig bod ysgolion uwchradd yn parhau i ddarparu ystod o ddysgu a'u bod yn parhau i gynnig cyfleoedd i arbenigo, ac ni ddylai'r ymateb i COVID-19 atal dysgwyr rhag cael gafael ar y cyfleoedd hyn. Dylai ysgolion fod mor uchelgeisiol â phosibl yn yr hyn byddant yn ei gynnig, gan gynnwys o fewn a thuag at arbenigeddau TGAU. Bydd angen hyblygrwydd arnynt er mwyn rheoli hyn. Bydd yn golygu bod angen i staff addysgu nifer o grwpiau cyswllt ac efallai bydd yn golygu bod angen addysgu dysgwyr o grwpiau cyswllt gwahanol ar yr un pryd. Ni ddylid osgoi hyn, ond dylid ei leihau pan fo'n bosibl.

Pan fydd plant mewn nifer o grwpiau cyswllt yn cael eu haddysgu ar yr un pryd, dylai ysgolion fabwysiadu'r dull o gyfrifo a rheoli risg a amlinellir yn y canllawiau gweithredol. Dylent barhau i hyrwyddo dysgu cadarnhaol drwy ddulliau digidol, gan fod hyn yn gallu cefnogi dulliau o ddatrys problemau a llythrennedd digidol, yn ogystal â chynnig neu ganiatáu hyblygrwydd mewn amrywiaeth o senarios gweithredol gwahanol. Fel y nodwyd uchod yn y canllawiau hyn, dylai ysgolion ymgymrydd at gysondeb tymor hwy gyda dull gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru.

### **Cymwysterau**

Mae'r canllawiau hyn yn cefnogi dysgwyr o bob oed ond rydym yn cydnabod bod ystyriaethau ychwanegol i'r rheini sydd ar fin sefyll arholiadau'r haf nesaf. Bydd ein cynllun 'Recriwtio, adfer a chodi safonau' yn ceisio meithrin hyder mewn dysgu, gwybodaeth a sgiliau yn y garfan o ddysgwyr a fydd yn ymgymryd ag arholiadau ffurfiol yn 2021. Bwriad hyn yw cefnogi dysgwyr a sicrhau na fyddant dan anfantais. Byddwn yn ceisio casglu gwybodaeth a datblygu adborth ynghylch sut mae dysgwyr yn y garfan hon yn dod yn eu blaenau gyda'r gefnogaeth ychwanegol hon a byddwn yn ei rhannu â Cymwysterau Cymru i'w helpu gyda'u hystyriaethau ar gyfer 2021.

Mae Cymwysterau Cymru yn gweithio gyda CBAC i ystyried y newidiadau mae modd eu gwneud i arholiadau 2021 er mwyn rhoi cyfle priodol i ddysgwyr ddangos eu gallu gan gydnabod y tarfu sylweddol a fu i'w haddysgu a'u dysgu. Mae angen i'r addasiadau hyn ddiogelu uniondeb a dilysrwydd y cymwysterau.

Er mwyn cefnogi hyn, rydym wedi cyhoeddi na ddefnyddir data dyfarnu cymwysterau 2020/21 i adrodd ar ddeilliannau cyrhaeddiad ar lefel ysgol, awdurdod lleol na chonsortia rhanbarthol, a rhaid peidio â defnyddio'r data i ddal ysgolion i gyfrif am ddeilliannau eu dysgwyr, yn yr un modd a wnaed yn 2019/20.

Dylai ysgolion ystyried hyn, a'r blaenoriaethau dysgu ehangach a nodir yn y canllawiau hyn, wrth gynllunio eu dull o ddysgu dros y flwyddyn academaidd nesaf. Dylai'r cynllunio hyn gynnwys ystyried i'r nifer y cymwysterau y mae hi'n rhesymol disgwyl i ddysgwyr ymgymryd â nhw, er mwyn caniatáu iddynt ddangos eu potensial llawn a chyflawni hyd eithaf eu gallu.

Mae Cymwysterau Cymru a CBAC wedi diweddarau eu gwefan yn gyson gyda'u cyhoeddiadau a'u hystyriaethau diweddaraf, gan gynnwys y bwriad i gynnal cyfres



arholiadau arferol mis Tachwedd, yn bennaf er mwyn cefnogi'r dysgwyr hynny sy'n dymuno ailsefyll arholiadau. Bydd rhagor o wybodaeth am y dull a ddilynir yn 2021 yn cael ei darparu cyn diwedd tymor yr haf.

## **Adnoddau**

### **Adnoddau cyfrwng Cymraeg**

Rydym yn gweithio'n mewn partneriaeth â rhanddeiliaid i ddod o hyd i'r angen am adnoddau ychwanegol a deunyddiau ategol i gefnogi ysgolion i ymateb i'r heriau, gan lunio a rhannu adnoddau'n ddiwyd. Byddem yn anelu at ddarparu unrhyw adnoddau ychwanegol angenrheidiol yn gynnar yn ystod tymor yr hydref.

Mae'r adnoddau hynny'n cynnwys tua 120 o adnoddau addysgu cyfrwng Cymraeg newydd a 50 o lyfrau Cymraeg sydd bellach ar gael drwy Hwb. Mae rhagor o adnoddau i gefnogi cyfuniad o ddysgu yn yr ysgol a'r tu allan yn parhau i gael eu datblygu ar gyfer yr hydref. Bydd rhaglen o weithgareddau ar-lein yn ogystal ag awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau teuluol i atgyfnerthu sgiliau Cymraeg hefyd ar gael ar gyfer dechrau gwyliau'r haf. Mae CYSGLIAD nawr hefyd ar gael am ddim o ganlyniad i bartneriaeth rhwng Prifysgol Bangor a Llywodraeth Cymru.

### **Pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig**

Mae gweithgor yn cael ei sefydlu i oruchwylio datblygu adnoddau dysgu, a chanfod y bylchau yn yr adnoddau neu'r hyfforddiant sydd ar gael ar hyn o bryd ar gymunedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, gan gynnwys eu cyfraniadau a'u profiadau. Bydd y gweithgor hefyd yn ystyried argymhellion ar gyfer dysgu proffesiynol.

### **STEM**

Fel rhan o'n gwaith ar adnoddau, byddwn hefyd yn datblygu adnoddau i gefnogi gweithgareddau cyfoethogi STEM o ansawdd uchel.

## Atodiad

### Recriwtio, adfer a chodi safonau

Mae'r cynllun 'Recriwtio, adfer a chodi safonau' yn gronfa newydd gwerth £29m er mwyn gallu recriwtio tua 900 o staff addysgu ar gyfer y flwyddyn academaidd 2020/21 dim ond er mwyn cefnogi'r dysgwyr yr oedd cau'r ysgolion wedi effeithio arnynt fwyaf. Y carfannau a fydd yn cael blaenoriaeth fydd Blynyddoedd 11, 12 ac 13 mewn ysgolion uwchradd, a dysgwyr bregus.

### Beth fydd yn cael ei addysgu i'r dysgwyr?

Mae'r canllaw hwn yn camu ymlaen o ailgydio haf 2020, ac yn pwysleisio pwysigrwydd dysgu ac iddo ddiben, a darpariaeth eang a chytbwys sydd â llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd wrth ei chalon. Bydd dysgu annibynnol a sgiliau cymell hefyd yn ganolog i'r pecyn hwn. Byddwn yn ceisio creu cymaint o hyblygrwydd â phosibl yn y cwricwlwm i ysgolion, a fydd yn dal i reoli pwysau COVID-19. Bydd y cynllun 'Recriwtio, adfer a chodi safonau'n' canolbwyntio ar yr un gyfres o feysydd dysgu blaenoriaeth â'r holl ddysgwyr eraill.

Byddwn yn gweithio'n agos gyda Cymwysterau Cymru i sicrhau bod ein dull gweithredu o ran y cwricwlwm a'r dysgu yn hyrwyddo ac yn cyd-fynd â hygredded a dilysrwydd cyfres arholiadau 2021.

Byddwn yr un mor ymrwymedig i ddatblygu canllawiau'r cwricwlwm newydd ar y cyd a byddwn yn parhau i fynd â'r gwaith hwn rhagddo gyda phartneriaid dros y flwyddyn i gefnogi ysgolion tuag at ddiwygio'r cwricwlwm.

### Sut byddant yn cael eu haddysgu?

Gallai'r pecyn cefnogaeth, a fydd yn cael ei ddarparu ar lefel ysgol, gynnwys cefnogaeth hyfforddi ychwanegol, rhaglenni dysgu wedi'i bersonoli ac amser ac adnoddau ychwanegol ar gyfer dysgwyr sydd mewn blwyddyn arholiadau. Mae hyn ar ben darparu 10,000 o ddyfeisiau dysgu digidol, sicrhau bod plant cymwys yn dal i gael prydau ysgol am ddim a chynyddu'r gefnogaeth sydd ar gael mewn perthynas ag iechyd a lles meddyliol ac emosiynol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu hyfforddiant ac adnoddau dysgu i athrawon newydd ac i athrawon sydd eisoes yn gweithio er mwyn cefnogi'r addysgu yn y cyd-destun hwn. Bydd yr adnoddau'n berthnasol i ddysgu yn yr ysgol a'r tu allan i'r ysgol, ac felly byddant yn berthnasol yn y tymor hir i bob senario COVID.

### O ble ddaw'r capasiti ychwanegol?

Bydd y capasiti ychwanegol ar ffurf sy'n cyfateb i:

- 600 o athrawon o'r garfan o athrawon newydd gymhwyso ac athrawon cyflenwi.
- 300 o gynorthwywyr addysgu.

### Fframwaith cenedlaethol, gwireddu lleol

Ni fyddwn yn gosod fformiwla gaeth ar gyfer sut mae ymateb i'r sefyllfa ar lefel leol, ond byddwn yn rhoi fframwaith a chanllawiau y bydd ysgolion, awdurdodau lleol a

rhanbarthau'n gallu eu defnyddio wrth ddatblygu'r cynlluniau, y dulliau a'r atebion sydd eu hangen ar eu cymunedau lleol a'u plant a phobl ifanc.